



Llun 4

o Grochendy Wemyss yn yr Alban. Mae enwau'r dynion yma'n bwysig wrth ystyried y tebygrwydd rhwng cynnyrch y ddau grochendy ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Tanlinellu hyn mae'r addurno o'r crêyr â'i bwysau ar ei goesau gwan.

Gwelir yr un tebygrwydd o ran steil yn y rhosynnau te a baentiwyd gan Shufflebotham yn Llanelli a'r rhosynnau o law Stewart ym Mryste. Yn *Llun 4* mae rhosynnau Shufflebotham yn eu gogoniant. Roedd y ddawn gan Shuff, fel y'i gelwid yn y crochendy, i greu rhosyn byw gydag ychydig iawn o gyffyrddiadau o'i frws. Enghraifft o waith Stewart ym Mryste yw'r rhosynnod yn *Llun 5*. Maent hefyd yn gywrain ond yn llai byw na rhai Shufflebotham. O sylweddoli y paentiwyd y



Llun 5



Llun 6

patrymau yma wrth eu dwsenni yn ddyddiol yn y crochendai, mae'n rhaid rhyfeddu at y safon a'u hapêl lliwgar. Pan arddangosir casgliad o'r llestri yma gyda'i gilydd, maent yn wledd i'r llygad.

Gellir olrhain traddodiad yr addurno llawrydd yn ôl i'r Alban ac i Wemyss, o'r lle y daeth Stewart, ac eraill i Fryste. O edrych ar *Llun 6* sy'n dangos rhosyn a baentiwyd yn Wemyss, mae'n hawdd gweld na ellir gwadu perthynas. Mae llawer o enghreifftiau eraill o debygrwydd, ond credaf fod y rhosynnau'n dystion digon cryf i brofi'r achos! Achos sy'n rhoi maes firwythlon iawn i gasglwyr ymddiddori ynddo.